# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**()**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Llun, 25 Ionawr 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd J.D.Morgan** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd A.R.Aubrey** |
| **Cynghorwyr**: | J.Hurley, S.Miller, S.Pursey, S.Renkes, S.K.Hunt, A.J.Taylor a/ac E.V.Latham |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Griffiths, S.Blewett a/ac S.Curran |

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.

## 3. FFRAMWAITH CYMHWYSEDD CLLLC AR GYFER CYNGHORWYR 2021

Mae'r adroddiad a ddosbarthwyd i ddweud wrth aelodau am Fframwaith Datblygu Cymwyseddau Cynghorwyr arfaethedig CLILC. Mae'r fframwaith yn amlinellu'r wybodaeth a'r ymddygiad sy'n ofynnol gan Gynghorwyr mewn awdurdodau unedol. Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor roi unrhyw adborth/sylwadau ar y fframwaith y gall y Cadeirydd a'r swyddogion eu darparu i'r Aelodau Arweiniol a Swyddogion ar gyfer y Rhwydwaith Cymorth a Datblygu Aelodau.

Cadarnhawyd bod y fframwaith arfaethedig yn debygol o gael ei ystyried gan CLILC yn y gwanwyn, ond ni wnaed penderfyniad eto ar amserlen bendant. Hysbyswyd yr Aelodau fod yr

ymgynghoriad yn debygol o gynhyrchu fframwaith generig, ond byddai hyn yn cael ei drosi'n dempled CNPT, ar ôl cytuno arno.

Nododd yr Aelodau fod Fframwaith Cymwyseddau CLlLC yn gallu newid ac y gallai Aelodau barhau i roi sylwadau ar y fframwaith yn dilyn y cyfarfod, pe bai angen unrhyw sylwadau pellach.

Cyfeiriodd yr Aelodau'n benodol at A18 yn yr adroddiad – diogelwch personol. Cydnabu'r Aelodau'r sefyllfa ddiamddiffyn y gallai gwaith y cyngor eu rhoi ynddi weithiau. Trafododd yr Aelodau'r gofrestr o bobl dreisgar a arferai fodoli. Cadarnhawyd, oherwydd cyfyngiadau deddfwriaethol, y byddai angen sefydlu rheswm dilys dros weld y rhestr. Cadarnhaodd swyddogion y gellid datblygu protocol a fyddai'n caniatáu mynediad cyfreithlon at y rhestr.

**Penderfynwyd:** Y bydd Aelodau'n nodi'r Fframwaith Datblygu ar gyfer Cynghorwyr yng Nghymru 2021, yn nodi unrhyw adborth arfaethedig ac yn cynnig pwyntiau allweddol i alluogi'r Cadeirydd i baratoi ymateb ar ran y Pwyllgor i'r Aelodau Arweiniol a Swyddogion ar gyfer Rhwydwaith Cymorth a Datblygu Aelodau.

4. **ADOLYGIAD O GYFANSODDIAD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cyfansoddiad y mwyafrif yn cael ei ragnodi yn ôl y gyfraith. Er bod y Swyddog Monitro wedi diweddaru'r Cyfansoddiad pan fo deddfwriaeth newydd wedi dod i rym, mae'r Swyddog Monitro o'r farn y gellid ei ddiweddaru ymhellach a'i symleiddio i wneud y ddogfen yn addas i'r defnyddiwr ac yn ddealladwy i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno'i adolygu.

Cyflwynodd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) gynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trefniadau etholiadol , democratiaeth, perfformiad a llywodraethu llywodraeth leol. Byddai'r Bil arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor wneud nifer o newidiadau i'w Gyfansoddiad. Mae angen adolygu'r cyfansoddiad.

Roedd yr Aelodau'n awyddus i sicrhau bod y gweithdrefnau a gynhwysir yn y Cyfansoddiad, fel y'u rhagnodir yn ôl y gyfraith, yn glir fel y gall Cynghorwyr ddeall goblygiadau'r rhain yn llawn. At hynny, fod yr angen i gynghorwyr lynu wrth y Côd Ymddygiad mewn perthynas â'u hymddygiad yn cael ei amlinellu'n glir a bod modd i aelodau ei ddeall yn hawdd.

Amlinellwyd yn yr adroddiad raglen weithredu i gynnal yr adolygiad. Byddai'n ofynnol sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i ddatblygu'r eitem. Byddai ei angen yn unol â strwythur y rhaglen weithredu a amlinellir.

Cadarnhaodd swyddogion nad oedd unrhyw ofyniad am gydbwysedd gwleidyddol o fewn y Grŵp Tasg a Gorffen. Byddai'r Grŵp Tasg a Gorffen yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gyda chymeradwyaeth derfynol am unrhyw newidiadau a argymhellir yn cael ei roi gan y Cyngor Llawn.

**Penderfynwyd:** Sefydlu grŵp tasg a gorffen i ymgymryd â'r gwaith arfaethedig a amlinellir yn yr adroddiad er mwyn gallu paratoi cyngor i'r cyngor;

Cytuno ar aelodaeth y grŵp tasg a gorffen;

Cytuno ar y cynllun prosiect arfaethedig a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

Aelodau'r Grŵp Tasg a Gorffen:
Y Cynghorwyr D Morgan, A Taylor, A Aubrey, S Miller, J Hurley, S Hunt, E Latham, S Pursey.

Aelodaeth y Grŵp Tasg a Gorffen i'w hehangu i aelodau'r pwyllgor nad ydynt yn bresennol.

5. **AELODAU - AMGYLCHEDD TGCH**

6. **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2019-20**

Ystyriodd yr Aelodau Adroddiad Blynyddol Drafft Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd 2019-20.

**Penderfynwyd:** Y bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn nodi ac yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2019/20 a atodir yn Atodiad 1 ac yn ei gymeradwyo i'r cyngor.

7. **BLAENRAGLEN WAITH 2018-19**

Penderfynwyd ar y canlynol: Nodi'r Blaenraglen Waith

8. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd eitemau i'w hystyried.

**CADEIRYDD**